

CYFFES FFYDD

30. Am y ddeddf foesol.

Er i Grist lwyr brynu ei holl bobl oddi wrth felltith y ddeddf, fel yr oedd hi yn sefyll yn y cyfamod gweithredoedd (a), er hynny, y mae y gyfraith foesol, sylwedd yr hon oedd yn ysgrifenedig yn nghalon dyn pan grëwyd ef (b), yr hon a gyhoeddwyd gan Dduw oddi ar Fynydd Sinai mewn deg o orchmynion , i ddangos awdurdod Duw ar ddynion, ac fel yr amlhâi camwedd, i egluro yr angen. rheidrwydd o Gyfryngwr, ac i fod yn athro at Grist (c), yr hon hefyd a gyhoeddwyd gan Grist yn yr efengyl, mewn dau brif orchymyn, sef cariad tuag at Dduw a thuag at ein cymydog; y diweddaf yn deillio oddi wrth y cyntaf, ac yn brawf ohono (d), -y mae y ddeddf hon yn aros yn barhaus yn rheol ufudd-dod i ddyn, tuag at ei Greawdwr, heb un gradd o gyfnewidiad arni dan un oruchwyliaeth (e). Y mae y gyfraith berffaith hon yn ysbrydol, yn gyfiawn, yn sanctaidd, a da; yn cynnwys ynddi yr holl bethau a ofyn yr Arglwydd oddi wrth ddynion, heb fod yn bosibl cyfnewid un o'i gorchmynion, tra byddo Duw yn Greawdwr a dyn yn greadur (f). I anrhydeddu hon yr ymddangosodd Crist yn y cnawd i gyflawni gwaith y prynedigaeth (g) ; a'r gyfraith hon a ysgrifennir gan yr Ysbryd Glân ar galonnau y prynedigion, yn adferiad delw Duw arnynt (h).

30. Of the Moral Law.

Though Christ redeemed all his people from the curse of the law, as it was sanctioned in the covenant of works (a), yet the moral law, the substance of which was written in the heart of man at his creation (b), which was proclaimed by God from Mount Sinai in ten commandments, to declare God's authority over men and cause the offence to abound, to show the necessity for a mediator and to be a schoolmaster to bring men to Christ (c); which was also proclaimed by Christ in the gospel in two great commandments, love to God and love to our neighbour, the latter springing from and being evidence of the former (d) – this law ever continues to be the rule of man's obedience to his Creator, in no degree changed under any dispensation (e). This perfect law is spiritual, righteous, holy, and good, and contains in itself all that the Lord requires of men; no change being possible in one of its commandments, while God is Creator and man a creature (f). To magnify this law Christ was manifested in the flesh and fulfilled the work of redemption (g); and this is the law that the Holy Ghost writes in the hearts of the redeemed, when they are restored to the image of God (h).

(a) Gal. 3:13, 4:4-5; Rhuf./Rom. 8:3-4, 10:4.

(b) Gen. 1:26: 2:17; Rhuf./Rom. 2:14, 5:13, 10:5; Preg./Eccles. 7:29; Job 28:28.

(c) Exod. 20:3-17; Deut. 5:6-2; Rhuf./Rom. 5:20; Gal. 3:24.

(d) Math./Matt. 5:17-48, 22:36-40; Rhuf./Rom. 13:8,10.

(e) Rhuf./Rom. 2:14 gwêl/see (b), 3:19; Matt. 5:48, 22:36-40;

Salm/Psa.19:7; Iago/James 1:25.

(f) Deut. 5:32-33, 12:32; Salm/Psa. 119:152,160; Rhuf./Rom. 7:12, 14; 1 Tim. 1:8; Eff./Eph. 6:1-2; Iago/James 2:10; Math./Matt. 5:17-18.

(g) Gal. 3:17 gwêl/see (a), 4:4-5 gwêl/see (a); Rhuf./Rom. 8:3 see (a), 10:4 gwêl/see (a); Math./Matt. 5:17 gwêl/see (f); Eseia/Isa. 42:21.

(h) Heb. 8:10; Salm/Psa. 119:97; Rhuf./Rom. 7:22. 25; 1 Cor. 7:19; Math./Matt. 5:19; Iago/James 1:23-25; Jer. 31:33; Eff./Eph. 5:1; 2 Cor. 7:1; 1 Ioan/1 John 3:3.